# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad I'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 7 Mawrth, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mair Rowlands<br>Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Plant Pobl Ifanc a Hamdden |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli perthnasol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau rwy'n gyfrifol amdanynt. Fel rwyf wedi adrodd yn flaenorol, mae nifer o'r mesuryddion perfformiad y maes plant yn cynrychioli cynnydd cyffredinol mewn pwysau gwaith o ganlyniad i niferoedd uchel o blant mewn gofal.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. P8 - Ymyrraeth Gynnar ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd.

4.1.1. Pwrpas y prosiect hwn yma yw gosod cyfeiriad a sefydlu blaenoriaethau ar gyfer agenda ataliol yng Ngwynedd, gan weithio yn aml asiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion yn gwneud y pethau cywir yn y llefydd cywir. Bydd y prosiect yn sicrhau ymyrraeth gynnar ac yn pwysleisio bod y gefnogaeth briodol yn cael ei rhoi ar yr adeg gywir. Y bwriad yma yw sicrhau bod rhaglen glir o wasanaethau ataliol ar gael i bobl ifanc Gwynedd, a bod ohono yn rhaglen sydd â pherchnogaeth draws -sector, yn cynnwys y trydydd sector.

4.1.2 **Ail-ystyried a blaenoriaethu adnoddau rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd ar gyfer 2016/17 a chynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf.**
Mae asesiad anghenion cynhwysfawr wedi ei gwblhau cyn yr Haf 2016 sydd wedi adnabod anghenion ar draws y sbectrwm o angen yng Ngwynedd. Fel Rwyf wedi adrodd yn flaenorol, mae pedwar prif faes o angen wedi eu hadnabod, sef, oediad iaith a llefaredd; rhiantu a chefnogaeth gydag ymddygiad; mynediad i wasanaethau iechyd meddwl lefel isel a chefnogaeth i bobl ifanc yn eu harddegau. Bydd y pedair ffrwd gwaith yn ffurfio sylfaen ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac ymyraethau fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd.

4.1.3 Mae briff wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer gwerthusiad annibynnol o'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd a fydd yn bwydo mewn i'r gwaith cynllunio ac ail gomisiynu rhaglen i'r dyfodol. Mi fydd cyfnod trosiannol y Rhaglen bresennol rhwng Ebrill 1af a Medi 30, 2017 gyda'r Cynllun newydd yn cychwyn ar y 1af o Hydref, 2017.

4.1.4 **Cryfhau model Tîm o Amgylch y Teulu gan adeiladu ar y gwaith o gydlynu'r gefnogaeth i grwpiau bregus o deuluoedd**
Mae cydnabyddiaeth fod y model Tîm o Amgylch y Teulu yn fodel effeithiol o weithio gyda theuluoedd ar yr arwyddion cynharaf o angen. Mae trafodaethau ym Mwrdd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd wedi nodi bwriad i barhau i adeiladu ar y model yma o weithio ar gyfer y cylch comisiynu nesaf ar gyfer grant Teuluoedd yn Gyntaf. Mae bwriad i gomisiynu gwerthusiad o fuddion ariannol ac anariannol y cynllun ar droed fydd hefyd yn bwydo mewn i'r cynllun

ail gomisiynu ac i'r strategaeth Ymyrraeth Gynnar a byddaf yn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau.

4.1.5 **Mabwysiadu'r Strategaeth Ymyrraeth Gynnar a'i rhoi ar waith**

Mae Strategaeth Ymyrraeth drafft wedi ei lunio yn dilyn cyfres o weithdai gyda phartneriaid. Fe adroddais yn y cyfarfod diwethaf bod bwriad i gyflwyno Strategaeth derfynol i'r Bwrdd Partneriaeth Plant a Phobl ifanc ym Mis Rhagfyr 2016. Mae peth llithriad i'r amserlen ond rwyf wedi derbyn sicrwydd bydd Strategaeth Ymyrraeth Gynnar mewn lle cyn diwedd mis Mawrth 2017, a fydd yn gosod cyfeiriad a sefydlu blaenoriaethau i'r dyfodol.

4.1.6 **Ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy sicrhau fod ein prosesau gwaith yn cyfateb a'r disgwyliadau statudol o ymateb i gyfeiriadau.**

Mae'r Gwasanaeth yn adrodd eu bod wedi cyfrannu yn sylweddol at y gwaith rhanbarthol ar drefniadau gweithredol o gyfarfod a'r disgwyliadau o dan y Ddeddf e.e. i sicrhau mynediad i Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA). Mae'r adran wedi datblygu yn lleol ffurflen asesu anghenion gofal a chefnogaeth sydd nawr yn cael ei ddefnyddio gan yr adran ac wedi cael ei fabwysiadu yn rhanbarthol. Mae'r adran yn y broses o roi trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer sefydlu trefniadau IAA yn ymarferol o fewn y gwasanaeth. Mae'r adran hefyd yn adrodd eu bod yn cydweithio gyda swyddog annibynnol er mwyn dod i benderfyniad ar y trefniant mwyaf addas yng Ngwynedd.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1 Mae'r **Gwasanaeth Hamdden** wedi bod yn adolygu eu pwrpasau a'u mesurau ers i mi adrodd tro diwethaf. Bydd mesurau newydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar dri maes gwaith sef Chwaraeon am Oes & Awyr Agored; Gweithgareddau dwr, a Chanolfannau Byw'n Iach.

5.2 Bydd y mesurau sydd wedi'i hadnabod yn canolbwyntio ar fesur effaith y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i drigolion Gwynedd, gan ystyried barn y plenty / pobl ifanc a'r rhieni. Yn y gorffennol, mae'r mesurau wedi'i hadrodd yn flynyddol, ond rwy'n falch o gael dweud bod y gwasanaeth wedi cynyddu amlder adrodd. Bydd y mesurau hefyd yn ystyried 'galw cudd' er mwyn targedu'r unigolion hynny a oedd yn aelodau o'r Canolfannau Hamdden, ond ddim yn mynychu erbyn hyn.

5.3 Cytunais ar y gyfres o fesurau newydd yn ystod cyfarfod ddiwethaf herio perfformiad felly bydd y gwasanaeth yn mynd ati i gasglu data a'u hadrodd tro nesaf.

5.4 O ran y **Gwasanaeth Ieuenctid**, mae rhaglen ymgysylltu gyda phobl ifanc, staff a phartneriaid ar gyfer y cynllun ail-fodelu yn mynd yn dda. Bu ymgysylltiad cyhoeddus gymryd lle ym mis Ionawr i adnabod blaenoriaethau ar gyfer Cynllun ail-fodelu'r gwasanaeth. Bydd y gwasanaethau yn adolygu eu mesurau ar ôl cael gwybodaeth bellach am yr ail-fodelu. Ar hyn o bryd, gellir nodi **bod nifer yr achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasanaeth** yn **703** ar hyn o bryd, sydd ymhellach uwchben y targed o **400** a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae hwn yn rhywbeth i'w longyfarch.

5.5 Fel adroddwyd yn flaenorol, mae'r **Uned Dechrau'n Deg** wedi bod yn tynnu sylw'n genedlaethol at y ffaith nad ydi'r mesurau perfformiad o reidrwydd y ffordd fwyaf effeithiol o fesur datblygiad plant. Mae cydnabyddiaeth yn genedlaethol i hyn ac mae'r uned yn disgwyl cadarnhad os mai'r Proffil Cyfnod Sylfaen fydd y mesurydd o flwyddyn nesaf ymlaen. Mae'r uned yn adrodd cynnydd yn y nifer o gyfeiriadau plant sydd ag anghenion dwys yn ardal Arfon. Mae'r uned mewn trafodaethau gyda'u partneriaid i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer o grŵp yma o blant.

5.6 Mae'r **Tîm Gyda'n Gilydd** wedi gosod eu pwrpas ac yn mesur bod **100% o deuluoedd yn adrodd cynnydd yn dilyn derbyn gwasanaeth gan y Tîm (CSP lleol)**. Cytunwyd bod angen edrych yn rhagor ar bwrpas y gwasanaeth ac i ddatblygu mesurau sydd yn mesur eu pwrpas yn fwy ystyriol.

5.7 Mae'r tuedd yn parhau o ran y cynnydd o blant mewn gofal. Ar hyn o bryd mae **220** o blant Gwynedd mewn gofal. O gymharu â'r un cyfod flwyddyn ddiwethaf mae hynny'n gynnydd o **10.5%.** Yn ôl 'Stats Cymru', niferoedd plant mewn gofal Gwynedd yw'r uchaf o fewn ein Grŵp Cynghorau Teulu. Adroddwyd bod cynnydd yn y nifer o blant sydd wedi eu lleoli gyda'u rhieni. Ar hyn o bryd mae **54** plentyn **(25%)** wedi eu lleoli gyda'u rhieni. Nodwyd bod hwn yn gyfnod o risg uwch ac yn gost adnodd trwm i'r adran gan fod angen i gynyddu'r nifer o ymweliadau. Credaf fod angen deall y cohort yma o blant yn well er mwyn adnabod cyfleoedd lle gallwn ddylanwadu ar yn lleol ac mae'r adran wedi cytuno i gyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth cyn y Pasg.

5.8 Mae'r Gwasanaeth yn adrodd, er y cynnydd yn y nifer plant mewn gofal, buasai'r cynnydd yn llawer uwch heb gyfraniad ac ymyrraeth **Tîm Trothwy Gofal**. Mae gwerthusiad annibynnol o'r **Tîm Trothwy Gofal** yn cael ei gwblhau dros y misoedd nesaf er mwyn deall yn well lle mae'r gwahaniaeth yma yn cael ei weld. Mi fydd y **Tîm Trothwy Gofal** yn gosod eu pwrpas erbyn y cyfarfod nesaf ac yn datblygu mesurau addas sydd yn mesur eu llwyddiant.

5.9 Er y cynnydd mewn ymweliadau statudol mae Perfformiad yn erbyn **SCC/021 Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol** yn ystod y flwyddyn yn **93%,** sydd yn gynnydd ar chwarter diwethaf. Mae peth dirywiad yn berfformiad **SCC/025 Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd bod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â rheoliadau** yn **86.6%.** Rwyf wedi derbyn sicrwydd gan yr adran bod camau mewn lle i gynnal yr ymweliadau yma.

5.10 Mae dirywiad mewn ambell i Fesur arall e.e. **SCC/024 Canran y plant sy'n derbyn gofal a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol.** Er bod perfformiad ychydig yn well chwarter yma **(69%)** mae'n wir dweud nad yw'n gwelliant arwyddocaol. Gallaf gadarnhau bod y mesur yma wedi cael sylw gan y Panel Rhiant Corfforaethol ac rwy'n deall gan yr Adran Addysg bod gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau bod bob plentyn gyda Chynllun Addysg Bersonol. Mae sylw yn cael ei roi gan yr adran Addysg hefyd i sicrhau bod y cynlluniau o ansawdd ac yn cyfarch anghenion plant mewn gofal.

5.11 Mae dirywiad yn mesur **SCC/039 Canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal** sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn gyda **39%** o blant mewn gofal heb dderbyn asesiad Iechyd. Mae'r mater wedi cael sylw'r Panel Rhiant

Corfforaethol ac mae'r rhesymau tu ôl i'r tanberfformiad wedi cael eu trafod gyda'r Bwrdd Iechyd ac mae camau mewn lle i geisio ymateb i'r broblem. Awgrymir hefyd edrych ar fesurau iechyd mwy ystyrlon sydd yn adnabod anghenion iechyd plant mewn gofal yn well er mwyn sicrhau ein bod yn eu cyfarch.

5.12 Yn y run modd gyda'r mesur **'Lles Plant'** mae **100%** o blant mewn gofal gyda **chynllun llwybr wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal.** Er y perfformiad, ystyrir archwilio ymhellach i'r cynlluniau llwybr er mwyn sicrhau ansawdd. Eto, mae'r Cynlluniau Llwybr Plant yn cael sylw gan y Panel Rhiant Corfforaethol ac rwyf yn deall bod peth gwaith wedi cael ei wneud i sicrhau ansawdd. Mae'r uned nawr yn defnyddio'r teclyn mesur pellter 'Outcomes Star' ac rwy'n dealt bod yr adran yn gweithio tuag at ddatblygu mesur newydd yn seiliedig ar y teclyn yma.

5.13 O ran y mesurau hynny sy'n mesur **Diogelu 1** yn benodol rwy'n falch o adrodd fod **cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol** yn **100%.** Hoffwn dynnu sylw at y ffaith fod **canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/barn y plentyn** wedi cynyddu o **77%** i **92%** yn y chwarter yma. Nid oedd yr **Uned Diogelu ac Ansawdd** yn datgan unrhyw bryder yn nhermau sicrwydd ansawdd yn y maes.

5.14 Mi fydd **Derwen** yn gweithio ar osod eu pwrpas ac yn edrych ar osod mesurau sydd yn adrodd ar fodlonrwydd defnyddwyr eu gwasanaeth. Edrychaf ymlaen at gael adrodd ar y mesurau yma yn fuan.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1 Arbedion Hamdden & Ieuenctid - Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016 I ail-broffilio rhan o arbedion **HAM4** sef rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ystyried opsiynau gogyfer 2018-19. Mae hwn wrth gwrs yn gynllun sylweddol a'r datrysiad yn parhau yn heriol.

6.2 Bydd hefyd angen i mi ddychwelyd i'r Cabinet er mwyn derbyn cymeradwyaeth gogyfer cynllun toriadau i ail-fodelu'r gwasanaeth, lle mae arbedion effeithlonrwydd o £70,000 i'w gwireddu yn ychwanegol i'r toriad o £200,000.

6.3 **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** – Bydd Adolygiad Trydydd Chwarter o Gyllideb Refeniw 2016/17 (sydd eto i'w gwblhau) yn awgrymu rhywfaint o orwariant yn y meysydd Lleoliadau/Maethu am y flwyddyn, ac mae ystadegau'r Adran yn cadarnhau dau reswm am hyn:

- pwysau ar y gofyn am y gwasanaethau o ganlyniad i gynnydd yn nifer y plant sydd yn dod i ofal am y tro cyntaf
- amgylchiadau eithriadol o achosion risg uchel (ac felly cynlluniau gofal drudfawr) sydd wedi cynyddu'r angen am leoliadau allsirol a darpariaeth maethu allanol.

6.4 Yn adroddiad 20 Hydref 2016 i'r Tîm Rheoli Perfformiad, nodwyd bod yr Adran yn grediniol bod y ddau gynllun, Plant 5 (£100,000) a Phlant 6 (£80,000), yn cyflawni'r nod o ran y dull o ymdrin â gofynion statudol gofal plant, ac yn cyfrannu yn sylweddol at arbed costau. Er nad yw'r gwariant ar linellau perthnasol eu cyllideb wedi gostwng fel y rhagwelwyd, yn wyneb y sylwadau uchod, mae'n rhesymol ystyried bod yr oll o gynlluniau arbedion 2016/17 wedi eu gwireddu.

6.5 Mae'r Adran hefyd yn ffyddiog fod rhaglen waith mewn lle i allu gwireddu cynlluniau 2017/18, er bydd angen dwyn mewn cof bod amgylchiadau tu allan i'w rheolaeth yn gallu newid y sefyllfa yn gyflym iawn.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

**7.1. Dim i'w nodi.**

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**8.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n croesawu'r adroddiad yma. Yn amlwg, mae elfennau ohono sydd angen gwaith a sylw pellach, fel y nifer cymharol uchel o blant sydd mewn gofal a bod hynny ar gynnydd (paragraff 5.7) a'r peth dirywiad mewn ymweliadau statudol (paragraff 5.9) ac asesiadau iechyd (paragraff 5.11).

**ii. Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**
Cyflwynir unrhyw sylwadau, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cabinet

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Dim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad